OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1333

Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018

Cyfarfodydd paneli maethu

6.—(1) Ni chaniateir i unrhyw fusnes gael ei gynnal gan banel maethu oni bai bod o leiaf y canlynol yn cyfarfod fel panel—

(a) naill ai'r person a benodwyd i gadeirio'r panel neu un o'r is-gadeiryddion,

(b) un aelod sy'n weithiwr cymdeithasol a chanddo o leiaf dair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso perthnasol, ac

(c) tri, neu yn achos panel maethu a gyfansoddir ar y cyd o dan reoliad 4(2), bedwar aelod arall, a

phan na fo'r cadeirydd yn bresennol ac na fo'r is-gadeirydd sy'n bresennol yn annibynnol ar y darparwr gwasanaethau maethu, rhaid i o leiaf un o aelodau eraill y panel fod yn annibynnol ar y darparwr gwasanaethau maethu.

(2) Rhaid i banel maethu wneud cofnod ysgrifenedig o'i drafodion a'r rhesymau dros ei argymhellion.